Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** 2421A2021-22

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2021

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2021-22 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2021)07 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru barhau i adrodd yn erbyn Mesur Llywodraeth Leol 2009 hyd nes y bydd Fframwaith Cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig wedi'u cyflwyno.

## Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), ar ôl ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021, yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau o ran y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw safon o ran perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac yn gyfrifol am y wybodaeth a geir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Awdurdod, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch

a wyf o’r farn bod y Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â’r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o’r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw’n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw’r wybodaeth, nac ynghylch a oes modd cyflawni’r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella’r Awdurdod yn cynnwys adolygu’r cynllun er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi’r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Nid yw’r gwaith yr wyf i wedi’i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu’n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Nick Selwyn, Rheolwr